

## **Cyngor Cymuned Llanelian (277)**

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Mehefin 9, 2016 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Hefina Williams, Thomas D Jones, John Griffiths, Elfyn Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Glenys Jones, Cyng Aled Jones, Cyng Wil Hughes,

**Ymddiheuriadau:** Dafydd Griffiths, Cyng Richard Jones

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Hefina Williams ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

### **2 Datgan Diddordeb**

Materion Cynllunio – Cyng Wil Hughes

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Elfyn Hughes, eilio Helen Hughes.

### **4 Materion yn Codi**

4.1 Llithrfa – cadarnhawyd bod dosbarthu goriadau yn parhau a bod 40 o oriadau wedi eu rhannu hyd yma. Nodwyd bod parcio ar y gylchfan yn parhau i fod yn broblem, a bod gofyn am fin baw cwn yn y maes parcio. Bydd Cyng Wil Hughes a Cyng Aled Jones yn chwilio i fewn i'r mater. Nodwyd bod unigolyn wedi cael anaf ar y traeth dros y penwythnos. Byddai Cyng Aled Jones yn anfon y wybodaeth at Iwan Huws er gwybodaeth.

4.2 Newid Enwau Tai – cadarnhawyd bod Hefina Williams a Thomas Jones wedi cwrdd a Paul Roberts i drafod pryderon y Cyngor ynglyn a newid enwau tai. Teimlwyd bod y drafodaeth wedi bod yn bositif iawn. Gobeithir cael cynnal cyfarfod ag Alec Pickering, perchennog y Stad i drafod ymhellach. Cydnabyddwyd bod y gwaith mae'r Stad yn ei wneud yn yr ardal lleol o safon uchel iawn ac maent i ganmol am hynnu ac am gyflogi nifer o bobl lleol.

### **5 Cynllunio**

5.1 Ceisiadau – Roedd un cais i'w drafod:

20C27B Tir Tan Terfyn, Llanelian – Mynediad Newydd – Cefnogi

5.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau'r Cyngor Sir ar y ceisiadau canlynol –  
2 Maes y Groes – Caniatad

Rhos Helyg – Caniatad

Dim angen caniatad cynllunio ar gyfer llwybr Twrllachiad na sied Rhiwlas

5.3 Grid Cenedlaethol – nodwyd bod y Grid Cenedlaethol wedi cyflwyno cais am orchymyn yn cymeradwyo caniatad datblygu ar gyfer 'North Wales Connection'. Deallwyd gan Cyng Aled Jones bod y Cyngor Sir eisioes wedi ymateb yn gwrthwynebu peilonau ac yn gofyn am ystyried gosod y gwifrau tan ddaear.

### **6 Materion Ariannol**

6.1 Taliadau – cymeradwywyd y taliadau canlynol –

£168.00 IG Jones

£321.92 Cyflog y Clerc

6.2 Archwiliad – Cyflwynwyd dogfennau a rhestr wirio'r archwiliad allannol ac fe dderbyniwyd a chymeradwywyd y wybodaeth yn unol a'r archwiliad mewnol oedd bellach wedi ei gwblhau gan John Roberts. Yn absenoldeb y Cadeirydd, fe lofnodwd y dogfennau gan Hefina Williams.

### **7 Cod Ymddygiad**

Cadarnhawyd bod pob aelod wedi derbyn copi o'r Model Cod Ymddygiad (Diwygiedig). Mae'n rhaid i pob Cyngor fabwysiadu'r Cod diwygiedig erbyn ddiwedd Gorffennaf 2016. Rhaid hefyd anfon copi at yr Ombwdsmon a rhoi hysbyseb mewn papur lleol yn datgan bod y Cyngor wedi diwygio eu Cod Ymddygiad. Bydd angen cadarnhau bod y Cyngor wedi mabwysiadu'r Cod diwygiedig drwy anfon copi o gofnodion y cyfarfod at y Pwyllgor Safonau.

Mabwysiadwyd y Cod Ymddygiad diwygiedig.

## **8 Toiledau Cyhoeddus**

Daw gwahoddiad gan y Cyngor Sir i'r Cyngor Cymuned gymryd cyfrifoldeb am y toiledau cyhoeddus ym Mhorth Eilian. Cytuno ei bod yn bwysig bod y cyfleuster ar agor o Pasg tan yr Hydref a bod nifer iawn o bobl yn eu defnyddio.

Cytuno holi am fwy o wybodaeth a datgan diddordeb yng nghynnal y cyfleuster. Cytuno y byddai'n hanfodol bod yr adeilad yn cael ei drin cyn byddai cymryd unrhyw gyfrifoldeb ohono. Cafwyd grynodedb gan Cyng Wil Hughes o'r hyn sydd yn digwydd mewn ardaloedd eraill sydd eisioes wedi cymryd cyfrifoldeb am eu cyfleusterau cyhoeddus.

## **9 Gohebiaeth**

9.1 Cafwyd ebost gan Mon Williams yn cadarnhau bod y gwaith i drin y tyllau yn y lon mewn amryw o leoliadau wedi ei gwblhau. Gofynnwyd i Cyng Aled Jones gysylltu ag o i ddatgan siom yn safon y gwaith hynnu a gofyn iddo edrych eto ar gyflwr y lon.

9.2 Ymgynghoriad Safleoedd Sipsiwn (dros dro) – cafwyd grynodedb o'r ddogfen gan Cyng Aled Jones. Mae'r Cyngor Sir yn chwilio am ddau safle i sipsiwn dros dro, bydd y safleoedd yma yn dilyn yr A55 gan mai tua, ac o'r lwerddon bydd disgwyl i'r teuluoedd fod yn theithio.

## **10 Unrhyw Fater Arall**

10.1 Cofgolofn – mae pris wedi dod i law i wneud y gwaith ar y gofgolofn. Nodwyd pryderon aelodau a phenderfynnu gofyn i gwmnïau eraill brisio am y gwaith. Mae Elfyn Hughes yn fodlon paratoi ceisiadau am arian petai angen. Gordon Hayes a Carol Whitaker i gysylltu a chwmnïau i brisio'r gwaith.

10.2 Prosiect Cofio – mae byrddau gwybodaeth y prosiect ar eu ffordd i LAngefni i'w arddangos yn yr archifdy. Mae'r clwb ieuencid wedi eu henwebu am wobwr cenedlaethol am eu gwaith ac fe'u llongyfarch am hynnu.

10.3 Neuadd Bentref – nodwyd bod John Patterson yn gofyn am gefnogaeth i gynnal y Neuadd a'i fod am ymddeol os yn bosib.

10.4 Eisteddfod yr Urdd – estynwyd llongyfarchiadau i blant y fro a fu'n cystadlu yn yr eisteddfod.

10.5 Gor-yrru – nodwyd pryderon bod un neu ddau yn gyrru'n beryglus o amgylch lonydd gwledig Llanelian. Cytuno gwahodd yr Heddlu i'r cyfarfod nesaf a chodi ymwybyddiaeth o'r broblem.

## **11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Nos Fawrth 5/7/2016**

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8 o'r gloch.